Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Atodiad A

# Cwestiynau ymgynghori

| Rhif. | Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|---|
| **Beth mae'r rhaglen brentisiaethau newydd yn ceisio ei gyflawni?** | | |
| 1 | A ydyw'r egwyddorion lefel uchel hyn yn gywir ar gyfer y rhaglen brentisiaethau newydd yng Nghymru? | Ydyn.<br><br>Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno gyda'r egwyddorion lefel uchel ac yn cefnogi 'cynyddu cyfleoedd prentisiaeth sydd ar gael yn Gymraeg'. Credwn y dylid ehangu'r egwyddor honno i ddatblygu sgiliau Cymraeg pob prentis yng nghyd-destun ei faes galwedigaethol. Dylai hyn gynnwys cynyddu ymwybyddiaeth iaith lle bo hynny'n berthnasol (e.e. pwysigrwydd defnyddio ychydig eiriau Cymraeg wrth ddarparu gofal). Byddwn yn trafod hyn yn fanylach isod.<br><br>Mae eisoes gofyniad ar gyflogwyr sector gyhoeddus i gynnig a darparu cyfleoedd hyfforddiant ac ymwybyddiaeth iaith dan safonau'r Gymraeg. Byddai gwneud hyn yn gynharach ar lwybr dysgu a gyrfa unigolyn yn fanteisiol. |
| 2 | Sut y gallwn ni wneud y rhaglen brentisiaethau yn fwy hyblyg i ddiwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr, gan gynnwys ymateb i newidiadau economaidd, gofynion y farchnad lafur, gwahaniaethau rhanbarthol a thueddiadau gweithlu'r dyfodol yng Nghymru? | O safbwynt y ddarpariaeth Gymraeg, mae sawl ystyriaeth ar gyfer creu rhaglen hyblyg sy'n diwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd blaenoriaeth o ran darparu gwasanaethau Cymraeg, er enghraifft y sector iechyd a gofal a'r sector gofal plant, a chymunedau â dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg.<br><br>Dylid cynnwys y Gymraeg fel un elfen bwysig yn y broses recriwtio, gan sicrhau bod gwybodaeth am sgiliau iaith yn cael ei chasglu'n gynnar ac yn cael ei defnyddio i lywio cefnogaeth ieithyddol. |
| 3 | Pa arloesedd neu newidiadau yr hoffech chi eu gweld yn y rhaglen brentisiaethau arfaethedig i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn berthnasol, yn gynhwysol, ac yn effeithiol i'r genhedlaeth nesaf o ddysgwyr yng Nghymru? | Hoffem weld y Gymraeg yn ddewis hawdd a hygyrch i bob dysgwr, gyda darpariaeth cyfrwng Cymraeg a hyfforddiant sgiliau Cymraeg yn cael eu cynnig yn rhagweithiol i ddarpar brentisiaid. Dylai hyn gynnwys datblygu |

| Rhif. | Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|---|
| | | ymwybyddiaeth pob prentis o bwysigrwydd yr iaith Gymraeg.<br><br>Mae angen i'r rhaglen brentisiaethau arfaethedig felly gael ei wneud ar gyfer Cymru, gan adlewyrchu anghenion penodol Cymru. |
| **4** | Sut olwg fyddai ar lwyddiant ymhen pum mlynedd? | Yn ôl ystadegau Llywodraeth Cymru ar ddysgu seiliedig ar waith, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y gweithgareddau dysgu sy'n cynnwys 'ychydig o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg'. Fodd bynnag, cyfran isel iawn sydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Byddai llwyddiant ymhen pum mlynedd yn golygu cynnydd yn y canlynol:<br>• nifer y prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog<br>• swm yr hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ar draws y ddarpariaeth gyfan<br>• nifer a chanran y dysgwyr sy'n derbyn hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog<br>• nifer a chanran y dysgwyr sy'n datblygu eu sgiliau Cymraeg, os nad ydynt eto yn gallu dilyn hyfforddiant drwy gyfrwng yr iaith<br>• dealltwriaeth y dysgwyr o fanteision sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle a'u gyrfa<br>• nifer a chanran y gweithlu sy'n dysgu ac/neu yn asesu drwy gyfrwng y Gymraeg<br>• nifer y cymwysterau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg<br><br>Yn fwy cyffredinol byddem yn dymuno gweld pob prentis yn gwella eu sgiliau Cymraeg yn ystod eu prentisiaeth (gweler ein hymateb i gwestiwn 10 am fwy o fanylder). |
| **5** | A ydyw'r diffiniad o brentisiaeth yng Nghymru yn nodi'r hyn y mae angen i'r rhaglen newydd ei gyflawni? | |
| **Fframweithiau'r sector prentisiaethau** | | |

| Rhif. | Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|---|
| 6 | A ydyw'r sectorau hyn yn addas i ddiwallu anghenion yr economi ac anghenion dysgwyr? | |
| 7 | A oes unrhyw sectorau galwedigaethol eang y byddech chi'n disgwyl eu gweld nad ydynt wedi'u cynnwys? | |
| 8 | Sut ddylai fframweithiau sector esblygu i adlewyrchu diwydiannau sy'n dod i'r amlwg, anghenion sgiliau, a blaenoriaethau rhanbarthol yng Nghymru, beth yw'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer hyn? | Mae rôl bwysig gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yng nghyd-destun deall anghenion sgiliau a chynllunio'r ddarpariaeth ar sail hynny. Yn dilyn adroddiad yn 2019 gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, cytunodd Llywodraeth Cymru bod rhaid gwella'n sylweddol allu'r Partneriaethau i gasglu a dadansoddi data ar y Gymraeg. Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol y Gogledd wedi mapio llwybrau prentisiaeth a'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yn ei hardal. Dylid cefnogi'r Partneriaethau i gyd i ddarparu gwybodaeth gyflawn am y ddarpariaeth prentisiaethau cyfrwng Cymraeg ledled Cymru a gwneud y mwyaf o'u cysylltiadau gyda chyflogwyr i adnabod eu hanghenion. Byddai hyn yn sail i gynllunio'r ddarpariaeth yn fwriadus ac effeithlon a chefnogi prentisiaid â sgiliau Cymraeg.<br><br>Mae'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg wedi galw ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a sefydliadau sector cyhoeddus mawr eraill i gynllunio'n fwy bwriadus er mwyn cynnig rhagor o brentisiaethau cyfrwng Cymraeg. Ym marn y Comisiwn, byddai hyn yn creu amodau ffafriol i alluogi pobl ifanc i aros yn eu cymunedau mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. |
| **Dysgwyr** | | |
| 9 | Pa agweddau ar daith y dysgwr ar hyn o bryd mewn prentisiaethau sy'n gweithio'n dda, a ble ydych chi'n gweld cyfleoedd i wella er mwyn | Tri sefydliad sy'n gwneud cyfraniad allweddol i'r maes prentisiaethau cyfrwng Cymraeg yw'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Urdd Gobaith Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. |

| Rhif. | Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|---|
| | cynorthwyo dysgwyr yn well drwy gydol eu dysgu? | Mae eu gwaith yn cynnwys hyfforddi prentisiaid mewn nifer o wahanol sectorau, gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr a sefydliadau addysg a hyfforddiant, a darparu cyrsiau Cymraeg ac adnoddau arbenigol.<br><br>Ers 2019 mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweithredu'r *Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg*. Mae'r cynllun yn gosod camau gweithredu dros y tymor byr, canol a hir mewn perthynas â chwe maes strategol allweddol, gan gynnwys cynyddu capasiti staffio, gwella darpariaeth ac ehangu adnoddau.<br><br>Mae gan Medr rôl hollbwysig yn cyfrannu at gynnal y momentwm y mae'r tri sefydliad hyn wedi ei sefydlu. Rydym yn croesawu bwriad Medr i gydweithio gyda phartneriaid a byddem yn falch o drafod ein gwaith ni ymhellach. Mae'r gweithle yn flaenoriaeth yng Nghynllun Strategol y Comisiynydd ar gyfer 2025-30. Elfen hanfodol o ddatblygu'r Gymraeg yn y gweithle yw prentisiaethau cyfrwng Cymraeg. Yr her, yn ein barn ni, yw cynnal sgiliau Cymraeg pobl ifanc a throi siaradwyr yn ddefnyddwyr tymor hir. Mae angen sicrhau bod y Gymraeg yn elfen bwysig ym mhob prentisiaeth.<br><br>Mae gan y Comisiynydd rôl bwysig o ran cynllunio defnydd o'r Gymraeg ac ymateb i anghenion iaith o fewn gweithleoedd a sectorau penodol. Rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi sefydliadau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Mae'n gwaith yn cynnwys cynnal fforwm rhithiol a digwyddiadau i drafod y Gymraeg yn y gweithle a rhannu arfer da. Mae'r camau hyn wedi derbyn ymateb cadarnhaol gan sefydliadau ledled Cymru. |
| **10** | Pa ganlyniadau y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer prentisiaid (e.e. cyflogaeth gynaliadwy, cymwysterau), | Gallai sgiliau Cymraeg darpar brentisiaid fod o fantais iddynt wrth ymgeisio am brentisiaethau penodol. Dylai pob prentis hefyd gael cyfle i ddatblygu eu sgiliau |

| Rhif. | Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|---|
| | a sut y gellir mesur a chynorthwyo'r rhain yn effeithiol? | Cymraeg yn ystod eu prentisiaeth. Dywed strategaeth *Cymraeg 2050* y 'bydd angen i bobl ifanc fod yn ymwybodol o fanteision parhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle a phwysigrwydd defnyddio'r iaith yn gyson er mwyn cynnal rhuglder a hyder'. Dylid rhoi'r cyfle hwn i bob prentis a'u hannog i fanteisio arno. Dylid cofnodi eu sgiliau iaith ar ddechrau eu prentisiaeth ac eto ar y diwedd er mwyn mesur cynnydd gan ddefnyddio'r Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg, y bydd Gweinidogion Cymru yn ei ddatblygu yn sgil Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025. Dylid sicrhau bod cefnogaeth ar gael i bob prentis, boed hwy yn gwneud eu cwrs yn Gymraeg neu yn rhannol neu beidio, wella eu sgiliau Cymraeg yn ystod eu prentisiaeth. Mae model pyramid iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd yn berthnasol iawn yn y cyd-destun hwn.<br><br>Mae hefyd angen blaenoriaethu cymwysterau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae diffyg cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn broblem ac mae'n golygu nad oes gan ddysgwyr cyfrwng Cymraeg yr un ystod o ddewis o gymwysterau â'u cyfoedion yn y sector cyfrwng Saesneg. Mae gan Gymwysterau Cymru strategaeth i gynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys targedu cymwysterau galwedigaethol ôl-16 yn ôl meysydd blaenoriaeth strategol, gan ymgynghori â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a chydweithio'n rhagweithiol gyda chyrff dyfarnu. Adroddodd Cymwysterau Cymru ei fod wedi llwyddo i fynd y tu hwnt i'w darged cychwynnol o 120 o gymwysterau i'w blaenoriaethu ar gyfer eu darparu yn Gymraeg rhwng 2023 a 2025.<br><br>Er bod gwaith pwysig wedi'i wneud o ran ehangu cymwysterau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, mae gwaith sylweddol i'w wneud o hyd yn y cyd-destun hwn. Mae'r dull o ehangu'r |

| Rhif. | Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|---|
| | | cymwysterau ar hyn o bryd yn dibynnu i raddau helaeth ar fodel o ddeall y 'galw presennol'. Canlyniad hyn yn aml yw bod rhwystrau sylweddol yn parhau i wynebu dysgwyr sy'n dymuno astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Er enghraifft, o fewn un maes llafur mae'n bosib bod y cymhwyster lefel 2 ar gael, ond nid y cymhwyster lefel 3. Dyw'r model hwn ddim wir yn annog dysgwyr i ddewis cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.<br><br>Mewn perthynas a datblygu cymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, credwn bod angen i gyrff dyfarnu fod yn fwy hyblyg o ran dewisiadau dysgwyr. Er enghraifft, wrth gofrestru ar gyfer cymhwyster sydd ar gael yn y ddwy iaith ar hyn o bryd, mae angen iddynt ddewis iaith a dyna fydd y dewis ar gyfer pob elfen o'r cymhwyster. Byddai'n fanteisiol cael mwy o hyblygrwydd er mwyn cwrdd ag anghenion y dysgwr. |
| **11** | Sut y gallwn ni ddenu mwy o brentisiaid, a/neu garfan ehangach o brentisiaid i'r rhaglen, waeth beth fo'u cefndir neu eu man cychwyn? | |
| **Cyflogwyr/diwydiant** | | |
| **12** | Sut y gallwn ni ehangu nifer ac ystod y cyflogwyr sy'n cynnig prentisiaethau, yn enwedig busnesau bach a chanolig? | |
| **13** | Sut y gall cyflogwyr ymwneud yn fwy effeithiol â dylunio, cyflawni a gwerthuso rhaglen brentisiaethau er mwyn sicrhau perthnasedd ac effaith? | Credwn fod gan gyflogwyr ran bwysig i'w chwarae o safbwynt creu'r galw ar gyfer prentisiaid â sgiliau Cymraeg ac annog dysgwyr i werthfawrogi a datblygu'r sgiliau hynny. Dylid ystyried sut i gefnogi cyflogwyr i amlygu'r angen am weithlu â sgiliau Cymraeg. Ategwyd hyn gan ddatganiad polisi Llywodraeth Cymru ar brentisiaethau yn 2024. Dylai darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr gydweithio â'i gilydd, yn ogystal ag ysgolion, i sicrhau fod llwybr clir o addysg statudol i'r |

| Rhif. | Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|---|
| | | gweithle sy'n gwneud y mwyaf o sgiliau Cymraeg dysgwyr. |
| **14** | Sut y gellir cefnogi busnesau'n well wrth weithio gyda phrentis? Pa wybodaeth fyddai'n ddefnyddiol i gyflogwyr, cyn cyflogi prentis ac yn ystod taith ddysgu'r prentis? | Mae llawer iawn o gyflogwyr yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg neu wedi derbyn cydnabyddiaeth y Cynnig Cymraeg gan y Comisiynydd. Dylid eu cefnogi i gyflogi prentisiaid â sgiliau Cymraeg a chynorthwyo'r prentisiaid i ddefnyddio a datblygu'r sgiliau hynny yn y gweithle. Dylid annog cyflogwyr eraill hefyd i weithredu yn yr un modd. Gellir cyfeirio cyflogwyr at y Comisiynydd am gefnogaeth a gwybodaeth am fanteision defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac wrth gynnig gwasanaeth i'r cyhoedd. Dylid hefyd eu cyfeirio at y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, sy'n cynnig darpariaeth am ddim i brentisiaid 16-25 oed sy'n dymuno datblygu eu sgiliau Cymraeg. |
| **15** | Sut y gallwn ni sicrhau rhaglen sy'n cefnogi datblygiad economaidd rhanbarthol a chynllunio sgiliau sy'n seiliedig ar le? | Mae prentisiaethau yn creu cyswllt allweddol rhwng sefydliadau addysg, siaradwyr Cymraeg a'r cwmnïau a'r sectorau sy'n chwilio am weithwyr â sgiliau dwyieithog. Drwy'r cyswllt hwn, mae'n bosibl diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg a'u cymunedau mewn ffordd hynod effeithiol. Gall prentisiaethau osod siaradwyr Cymraeg yn union lle mae eu hangen a drwy hynny gyfrannu'n uniongyrchol at wireddu rhai o amcanion strategaeth *Cymraeg 2050*. Mae'r rhain yn cynnwys cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar draws pob sector. Rhaid cynllunio'n strategol er mwyn cyflawni hyn.<br><br>Fel rhan o hyn mae angen sicrhau bod fframweithiau economaidd rhanbarthol yn ystyried mewn mwy o fanylder beth yw anghenion y Gymraeg o fewn gweithluoedd a sectorau penodol.<br><br>(Gweler hefyd ein hymateb i gwestiwn 8 uchod.) |
| **Darparwyr dysgu** | | |

| Rhif. | Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|---|
| **16** | Sut y gall darparwyr ymwneud yn fwy effeithiol â dylunio, cyflawni a gwerthuso rhaglenni prentisiaethau er mwyn sicrhau perthnasedd ac effaith? | (Gweler ein hymateb i gwestiwn 15 uchod.) |
| **17** | Beth sy'n gweithio'n dda a beth y mae angen ei gryfhau o safbwynt darparwr? | |
| **Y Gymraeg** | | |
| **18** | A oes gan ein hegwyddorion lefel uchel ar gyfer y rhaglen brentisiaethau newydd unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol ar y canlynol:<br>(a) cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?<br><br>Yn benodol<br>• Sut y gallwn ni annog mwy o fanteisio ar gyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg / yn ddwyieithog ledled Cymru?<br>• Sut y gellir ymgorffori'r Gymraeg yn fwy ystyrlon mewn rhaglenni prentisiaethau i gefnogi dwyieithrwydd, ymateb i anghenion cyflogwyr a hunaniaeth ddiwylliannol ar draws sectorau? | Nid yw'n ymddangos bod y ddogfen ymgynghori yn ystyried yn benodol effaith y rhaglen arfaethedig ar y Gymraeg. Gan dderbyn nad yw Medr eto dan safonau'r Gymraeg, dylid nodi bod disgwyliad ar sefydliadau sy'n dod dan safonau'r Gymraeg i roi ystyriaeth gydwybodol o effeithiau posib unrhyw benderfyniad polisi o ran y Gymraeg, ac wrth ymgynghori geisio barn ar yr effeithiau hynny. Mae gwybodaeth a chyngor pellach ar hyn i'w gweld ar wefan Comisiynydd y Gymraeg.<br><br>Pwysleisir yn *Cymraeg 2050* bwysigrwydd darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol wrth gynnal sgiliau Cymraeg dysgwyr er mwyn ateb y galw cynyddol am weithlu dwyieithog. Erbyn hyn, mae dros 130 o sefydliadau ar hyd a lled Cymru dan gyfundrefn safonau'r Gymraeg, gan gynnwys rhai o gyflogwyr mwyaf Cymru. Mae'r gyfundrefn safonau wedi arwain at gynyddu'n sylweddol y galw am unigolion sy'n gallu gweithio'n ddwyieithog. Gwyddom hefyd fod y Gymraeg yn sgil a werthfawrogir gan nifer o sefydliadau y tu hwnt i'r gyfundrefn safonau. Mae'r rhain yn cynnwys busnesau bach a mawr, rhai ohonynt wedi derbyn cydnabyddiaeth y Cynnig Cymraeg gan y Comisiynydd. Mae potensial enfawr i ehangu prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, yn arbennig o ystyried bod y niferoedd sy'n gwneud prentisiaethau cyfrwng Cymraeg yn parhau yn isel iawn ar hyn o bryd. |

| Rhif. | Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|---|
| | | Fel y nodwyd yn ein hateb i gwestiwn 4 uchod, mae'n hollbwysig bod dysgwyr yn deall manteision sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle a'u gyrfa. Yn dilyn o hynny, rhaid sicrhau bod cyfleoedd digonol ar gael iddynt i wella eu sgiliau Cymraeg a'u cynnal, i dderbyn hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg a chael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hefyd angen pwysleisio bod y Gymraeg yn berthnasol i bob prentis, ta waeth beth yw cyfrwng iaith y brentisiaeth ei hun. |
| **19** | A oes unrhyw ffactorau y dylid eu hystyried a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar y canlynol:<br>(a) cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? | Fel y nodwyd yn ein hymateb i gwestiwn 3 uchod, dylid sicrhau bod y Gymraeg yn ddewis hawdd a hygyrch a bod pob darparwr yn rhagweithiol wrth gynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg a hyfforddiant sgiliau Cymraeg i ddarpar brentisiaid. |
| **20** | A oes unrhyw ffactorau eraill i'w hystyried er mwyn sicrhau na fyddai dyluniad y rhaglen newydd yn cael effeithiau andwyol, neu a fyddai'n lleihau effeithiau andwyol ar y canlynol:<br>(a) cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? | |
| **Prentisiaethau cynhwysol** | | |
| **21** | Pa rwystrau sy'n bodoli ar hyn o bryd i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o ran cael mynediad at brentisiaethau a llwyddo ynddynt, a sut y gall dyluniad y rhaglen newydd fynd i'r afael â'r heriau hyn? | |
| **22** | A oes gan y cynigion unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol, neu ganlyniadau anfwriadol, o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant? Pa arferion da allech chi eu rhannu? | |

| Rhif. | Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|---|
| **23** | A oes gan y cynigion unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol, neu ganlyniadau anfwriadol, o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant? Pa arferion da allwch chi eu rhannu? | |
| **24** | A ddylem ni barhau i ariannu'r rhaglen prentisiaethau â chymorth a'r Cynllun Cymhelliant i Gyflogwyr? Eglurwch eich ateb, os gwelwch yn dda | |
| **25** | A oes opsiynau eraill yn ogystal / yn lle hynny a fyddai'n helpu i gynorthwyo prentisiaethau gynhwysol yn fwy? | |
| **26** | Beth allem ni ei wneud i gynorthwyo cyfranogiad mewn prentisiaethau ar gyfer y rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol? | |